

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	14 HYDREF 2024
TEITL	ASESIAD GWYBODAETH CENEDLAETHOL HYMANS ROBERTSON
PWRPAS	Darparu gwybodaeth am yr Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol
ARGYMHELLIAD	Nodi cynnwys yr adroddiad a cymryd rhan yn yr asesiad
AWDUR	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn elfen hanfodol o'r sector cyhoeddus, gan ddarparu buddion ymddeol i filiynau o weithwyr ledled y DU. Wrth i dirwedd rheoli pensiynau esblygu, mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn cael gwybod ac yn meddu ar y wybodaeth angenrheidiol i lywio cymhlethdodau cynlluniau pensiwn. Mae Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol (AGC) Hymans Robertson yn offeryn gwerthfawr yn hyn o beth. Mae'r papur hwn yn amlinellu buddion yr AGC a'i arwyddocâd i randdeiliaid CPLIL.

2. Gwell Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol CPLIL wedi'i gynllunio i wella dealltwriaeth o bynciau pensiwn allweddol ymhlith rhanddeiliaid CPLIL, gan gynnwys aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau ac Bwrdd Pensiwn. Trwy gymryd rhan yn yr asesiad, gall unigolion nodi bylchau gwybodaeth a meysydd i'w gwella, gan arwain at broses gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.

3. Safoni Gwybodaeth

Un o brif fanteision yr AGC yw sefydlu fframwaith gwybodaeth safonol ar draws y CPLIL. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth gyson o bynciau hanfodol, megis strategaethau buddsoddi, gofynion rheoleiddio, a rheoli risg. Mae safoni yn meithrin gwell cyfathrebu a chydweithio ymhlith rhanddeiliaid, gan arwain yn y pen draw at lywodraethu cronfeydd pensiwn yn fwy effeithiol.

4. Adnabod Anghenion Hyfforddiant

Mae'r asesiad yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i wybodaeth gyfunol rhanddeiliaid CPLIL. Trwy ddadansoddi'r canlyniadau, gall sefydliadau nodi anghenion hyfforddi penodol a theilwra rhaglenni addysgol yn unol â hynny. Mae'r dull hwn o dargedu hyfforddiant yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon a bod rhanddeiliaid yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella eu harbenigedd.

5. Gwell Llywodraethu a Chydymffurfio

Mae strwythur llywodraethu gwybodus yn hanfodol ar gyfer rheoli cronfeydd pensiwn yn effeithiol. Mae'r AGC yn arfogi ymddiriedolwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau â'r wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni eu dyletswyddau ymddiriedol a chydymffurfio â safonau rheoleiddio. Drwy wella arferion llywodraethu, mae'r asesiad yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor a chywirdeb y CPLIL.

6. Meincnodi ac Arferion Gorau

Mae'r AGC yn caniatáu i sefydliadau feincnodi eu lefelau gwybodaeth yn erbyn safonau'r diwydiant ac arferion gorau. Mae'r dadansoddiad cymharol hwn yn annog gwelliant parhaus ac yn cymell rhanddeiliaid i ymdrechu am ragoriaeth yn eu rolau. Trwy ddysgu gan gyfoedion a mabwysiadu arferion gorau, gall cronfeydd CPLIL wella eu perfformiad a'u darpariaeth gwasanaeth cyffredinol.

7. Cefnogaeth ar gyfer Gwneud Penderfyniadau Strategol

Mewn amgylchedd ariannol cynyddol gymhleth, mae gwneud penderfyniadau strategol yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant cronfeydd pensiwn. Mae'r mewnwleidiad a gafwyd gan yr AGC yn grymuso rhanddeiliaid i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch strategaethau buddsoddi, rheoli risg a gweinyddu cronfeydd. Yn y pen draw, mae'r dull gwybodus hwn yn arwain at ganlyniadau gwell i aelodau'r cynllun a buddiolwyr.

8. Casgliad

Mae Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol CPLIL Hymans Robertson yn adnodd hanfodol ar gyfer gwella gwybodaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid CPLIL. Mae asesiad 2024 wedi dechrau fis diwethaf, a dylai pob aelod fod wedi derbyn e-bost gan Hymans mewn perthynas â'r asesiad.

Bydd yr asesiad yn rhoi cipolwg i'r gronfa ar lefelau cyd-wybodaeth ein Pwyllgor a'n Bwrdd, yn ogystal â meincnodi sgoriau yn erbyn Cronfeydd eraill sy'n cymryd rhan. Asesir wyth maes allweddol sy'n hanfodol ar gyfer cyrraedd y safonau llywodraethu da a ddisgwylir gan y cynllun. Mae pob aelod hefyd yn derbyn ei sgôr unigol ei hun. Mae rhai o'r meysydd dan sylw yn cynnwys: Rôl y Pwyllgor a Deddfwriaeth Pensiynau, Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg a Llywodraethu Pensiynau.

Mae'r asesiad mewn ffurf holiadur amlddewis ar-lein a bydd yn cymryd tua 15 - 20 munud i'w gwblhau.

Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i greu cynlluniau hyfforddi wedi'u targedu ar gyfer aelodau, yn seiliedig ar y bylchau gwybodaeth a nodwyd. Mae'r asesiad hefyd yn rhoi manylion am lefelau ymgysylltu'r Pwyllgor a'r Bwrdd, yn ogystal â lledaenu gwybodaeth ym mhob un o'r wyth maes hyn.

Ar ôl i'r asesiad ddod i ben bydd Hymans yn cynhyrchu adroddiad cenedlaethol sy'n cynnwys dadansoddiad o dirwedd gyfredol Pwyllgor a Bwrdd CPLIL ledled y DU o'i gymharu â chanlyniadau AGC blaenorol.